OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2734 (Cy.241)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*19 Hydref 2004*
Yn dod i rym - -	*5 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 77(4), 78(6) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**), ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol o dan adran 84(1) o'r Ddeddf honno a chan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**2**), ac yntau'n cael ei ddynodi(**3**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**4**)) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir iddynt, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran ddiwethaf uchod (i'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau hyn o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth 1970 a grybwyllir uchod), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig a deuant i rym ar 5 Tachwedd 2004.

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999(**5**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraff (2).

(**1**) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).
(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. O dan Erthygl 3 o'r Rheoliad EC mae "food law" yn rhychwantu bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.
(**3**) O.S. 2003/2901.
(**4**) 1972 p. 68.
(**5**) O.S. 1999/1663, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163); O.S. 2002/1797 (Cy.172); O.S. 2003/1677 (Cy.180); O.S. 2003/1850 (Cy.200) ac O.S. 2003/3119 (Cy.297).